

Panel Iechyd a Lles Anifeiliaid Gogledd Cymru

NEWYDDLLEN – GWANWYN 2014

TB mewn Gwartheg

Mae rhai sy'n cadw gwartheg yng Nghymru yn cael eu hannog i ystyried y risg bod TB ar anifail cyn ei brynu. Bydd hyn yn helpu i asesu'r risg o'r clefyd y gallai'r anifail ei gyflwyno i'w gyr.

Cyn prynu gwartheg newydd, dylech ofyn y cwestiynau a ganlyn o leiaf:

1. Dyddiad y Prawf Cyn Symud diweddaraf
2. Dyddiad y prawf arferol diwethaf ar y gyr
3. Am faint o amser mae'r gyr wedi bod yn rhydd o TB yn swyddogol (OTF)?

Dyweddodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Christianne Glossop: "Mae TB mewn gwartheg yn glefyd dinistriol sy'n fwrn ar y diwydiant ffermio. Er mwyn cyrraedd ein gôl hirdymor o gael gwared â'r clefyd hwn o Gymru rhaid i bawb chwarae ei ran."

Trwy ofyn y cwestiynau syml hyn cyn prynu stoc newydd, gall ffermwyr wneud penderfyniadau doethach a gwell wrth fasnachu, a chymryd mwy o gyfrifoldeb am reoli'r risg o TB yn eu gyr fel rhan o ymdrechion ehangach i atal TB rhag lledaenu.

Atgoffa am y Gofyn i Brofi Cyn Symud

Rhaid i bob anifail gydymffurfio â'r rheolau profi am TB cyn symud. Mae gofyn profi gwartheg cyn y gellir eu symud o'r fferm. Rhaid i'r holl wartheg sy'n 42 diwrnod oed neu hŷn brofi'n negatif i brawf TB o fewn 60 diwrnod cyn iddynt gael eu symud.

Awdurdod Meddiannaeth Unigol (SOA)

Erbyn mis Medi 2014 bydd yr eithriad presennol ar y prawf cyn symud ar wartheg sy'n teithio rhwng eiddo yn yr un SOA yn dod i ben. Mae'r DU wedi bod o dan bwysau am gryn amser gan yr UE i gael gwared â'r eithriad hwn. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried pa symudiadau ellid eu caniatáu trwy eithriad heb orfod gwneud y prawf cyn symud. Mae'n bosib y bydd gofyn profi gwartheg sy'n cael eu symud oddi ar y fferm y gwanwyn hwn cyn y cânt ganiatâd i symud yn ôl yn yr hydref.

Safonau Masnach yn Cydweithio

Mae aildrefnu cynghorau lleol yn y newyddion ar hyn o bryd ac mae newidiadau yn debygol dros y blynnyddoedd nesaf. Yn y cyfamser mae'r chwe awdurdod safonau masnach yng ngogledd Cymru wedi ymrwmo i weithio'n fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon, ac i weithio gyda'i gilydd i wneud y defnydd gorau posib o adnoddau sy'n prinhaus. Mae prosiectau ar y cyd yn cael eu rhoi ar waith nawr i helpu a chefnogi prynwyr a busnesau cyfreithlon, gan gynnwys ffermwyr, ar draws y rhanbarth. Er enghraifft, mae'r newyddlen hon wedi cael ei chreu ar y cyd rhwng y chwe awdurdod safonau masnach yng ngogledd Cymru. Fodd bynnag, â ninnau'n rhan o gynghorau lleol sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau yn lleol lle mae eu hangen, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, byddwn yn parhau i gefnogi a gweithio gyda'r gymuned ffermio leol, hyd yn oed gydag adnoddau sy'n prinhaus.

Adrodd am wartheg yn erthyly neu'n lloia'n gynnar

Mae arwyddion nad yw pob achos o erthyly neu loia'n gynnar mewn gwartheg yn cael eu hadrodd wrth yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA). Rhaid profi pob erthyliad mewn gwartheg biff a gwartheg godro nad ydynt yn cael eu sgrinio gan samplau llaeth rheolaidd os:

- nad yw'r anifail sydd wedi erthyly wedi lloia'n normal o'r blaen
- yw'r anifail sydd wedi erthyly wedi'i eni tu allan i'r DU (mae'r DU yn cynnwys Gogledd Iwerddon)
- oes anifail arall yn y gyr wedi erthyly neu lloia'n gynnar yn y 30 diwrnod diwethaf.

Rhaid adrodd am bob achos o wartheg yn erthyly neu'n lloia'n gynnar i swyddfa leol yr AHVLA, fel y gellir gweithredu ar ymholiad i gynnal prawf am brwselosis o fewn 24 awr i'r erthyliad.



Cofrestru Hylendid Porthiant (EC/183/2005)

Mae angen i fwyafrif y ffermydd yng Nghymru fod wedi cofrestru fel busnes porthiant gyda'u hawdurdod lleol. Os ydych chi'n magu da byw, neu os ydych chi'n tyfu, yn cynaeafu, yn storio neu'n cludo porthiant ar gyfer da byw, hyd yn oed cnydau fel silwair a gwair, mae'n debygol y dylech fod wedi cofrestru, oni bai eich bod wedi'ch eithrio ar amodau penodol. Mae gwneud cais am gofrestrriad yn syml ac nid oes ffi i'w thalu. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fwy o fanylion a chyngor ar p'un a yw hyn yn berthnasol i chi. **Mae methu â chofrestru yn drosedd.**

Ceffylau'n Pori heb Ganiatâd

Mae hyn yn digwydd pan fydd ceffylau'n cael eu rhoi'n fwriadol ar dir i bori heb ganiatâd y tîrfeddiannwr. Mae hyn wedi dod yn broblem arbennig yn ne Cymru; fodd bynnag, mae nifer y digwyddiadau yn cynyddu yng ngogledd Cymru. Daeth deddfwriaeth newydd i rym ym mis Ionawr 2014 sy'n caniatáu i Awdurdodau Lleol, pan fo angen –

- gymryd a chadw ceffylau sydd ar dir heb ganiatâd y tîrfeddiannwr.
- gwerthu neu gael gwared â'r ceffylau hyn. Gallai gwaredu gynnwys eu hailgartrefu neu eu difa'n ddi-boen.
- adennill y costau cysylltiedig gan berchnogion y ceffylau hyn pan ellir eu canfod.

Mae pori heb ganiatâd yn effeithio ar y gymuned amaethyddol, ar dirfeddianwyr preifat ac Awdurdodau Lleol, ac mewn rhai achosion mae'n peri pryder am ddiogelwch y cyhoedd a lles y ceffylau dan sylw. Credir y bydd y Ddeddf hon yn gymorth i'r materion hyn ac i'r bobl sy'n cael eu heffeithio. Dylai tîrfeddiannwyr sicrhau fod eu tir yn ddiogel a bod giatiau wedi'u cloi'n ddiogel bob tro.



Cofnodi Symudiadau Defaid o 31 Rhagfyr 2014 ymlaen

Yn amodol ar rai eithriadau (e.e. symudiadau tir comin, symudiadau pori yn y gaeaf ac ati) *ers 31 Rhagfyr 2011*, roedd gofyn i ddefaid a geifr **a anwyd ar, neu ar ôl 31 Rhagfyr 2009** gael eu cofnodi'n unigol ar ddogfennau symudiadau (AML1). O **31 Rhagfyr 2014** bydd hyn hefyd yn berthnasol i ddefaid a geifr a anwyd **cyn 31 Rhagfyr 2009**.

Adrodd am Symudiadau Moch

Rhaid i rai sy'n cadw moch roi gwybod am symudiadau moch o flaen llaw yn electronig, trwy'r British Pig Executive (BPEX)/Meat & Livestock Commercial Services Ltd. Mae gwasanaeth ffôn ar gael i rai sydd heb fynediad electronig i'r rhyngwyd. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar wefan BPEX neu trwy ffonio 0844335840.

Rhaid i chi gadarnhau union nifer y moch sydd wedi'u llwytho a rhif cofrestru'r cerbyd sy'n eu cludo ar y diwrnod maent yn cael eu symud, neu fel arall ni ellir prosesu'r symudiad.

Pan fyddwch yn prynu moch o fferm arall rhaid i chi gadarnhau efo BPEX fod y moch wedi cyrraedd eich daliad chi o fewn 3 diwrnod iddynt gyrraedd. Gellir gwneud hyn trwy e-bost, neges destun neu ar y ffôn.

Gallwch unai anfon neges destun, neu ddychwelyd at eich cyfrif eAML2 ar-lein ar yr un diwrnod lle byddwch yn gweld y symudiad sydd angen adborth yn awtomatig. Mae fformat y neges destun yn syml (gweler isod) a gall fod mewn llythrennau mawr neu fach. Byddwch bob tro'n derbyn neges statws pan fyddwch wedi anfon eich neges destun.

